# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**10 MEHEFIN 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, P.M. Edwards, S.J.G. Gilasbey, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, A.D.T. Speake, D. Thomas ac A. Vaughan-Owen.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy, yn lle’r Cynghorydd T. Higgins;
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
R. Davies, Rheolwr Gwasanaethau Trefol a Chydymffurfiaeth;
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes;
H. Neil, Uwch-swyddog Diogelu Defnyddwyr;
A.J. Passenger, Swyddog Safonau Masnach;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 11:30yb - 12:15yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd T Higgins a'r Cynghorydd J. E. Morgan.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL DDRAFFT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn atodi strategaeth toiledau lleol ddrafft a oedd wedi'i datblygu yn unol â Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, lle'r oedd gan y Cyngor Sir ddyletswydd statudol i gyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Roedd y Strategaeth yn cynnwys yr adborth a'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn arolwg Asesu Anghenion a gynhaliwyd yn ystod Hydref/Tachwedd 2018. Amlinellwyd yn yr adroddiad y canfyddiadau allweddol o'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar 25 Mawrth a 12 Mai 2019 drwy'r cyfleuster ymgynghori ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal nodwyd mewn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad, nad oedd unrhyw effeithiau negyddol ac roedd cynnydd mewn mynediad gan y cyhoedd i doiledau cyhoeddus yn cael ei geisio.

Nododd yr aelodau er nad oedd dim gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus, bwriad y strategaeth oedd lliniaru unrhyw effeithiau negyddol lle gallai toiledau gael eu colli. Cafodd y cynigion a nodwyd yn y Strategaeth Toiledau Lleol Ddrafft eu datblygu i wella a gwneud y defnydd gorau posibl o gyfleusterau presennol a hyrwyddo darpariaeth toiledau ychwanegol, priodol a hygyrch at ddefnydd y cyhoedd. Hefyd byddai'r argymhellion a ddeilliai o'r strategaeth hon yn cefnogi'r weledigaeth o Sir Gâr iach sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â darparu cefnogaeth i'r bobl, y busnesau a'r cymunedau yn y sir.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch glanhau toiledau cyhoeddus, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Trefol a Chydymffurfiaeth, er bod y Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o redeg a gwasanaethu 19 o doiledau cyhoeddus ledled y Sir, mai gan Danfo oedd y contract ar hyn o bryd ar gyfer cadw'n lân y 9 bloc o doiledau cyhoeddus yr oedd Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac roedd ymweliadau ychwanegol yn cael eu trefnu fel y bo'r angen. Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau unigol pob cyfleuster yn Atodiad A o'r Strategaeth.

- Cyfeiriwyd at yr adborth oedd wedi dod i law yn dilyn yr ymgynghoriad, a dywedwyd er nad oedd dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu toiledau, fod pryderon cryf ynghylch y ddarpariaeth ac ynghylch glendid, yn enwedig gan fod y Cyngor yn ceisio cynyddu twristiaeth ar draws y sir. Gwnaed sylw pellach a oedd yn adleisio'r pryder gan ychwanegu bod darparu toiledau yn hanfodol mewn lleoliadau i dwristiaid.

- Cafwyd ymholiad ynghylch toiledau ychwanegol, a dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff nad oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddarparu toiledau ychwanegol gan nad oedd cyllideb gyfalaf ar gael. Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol ynghylch diffyg toiledau cyhoeddus mewn datblygiadau ar gyrion trefi fel Pensarn, Caerfyrddin, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff er nad oedd grym gan y Cyngor i fynnu bod datblygiadau newydd yn agor eu toiledau i'r cyhoedd, gellid ystyried opsiynau lle gallai'r Cyngor o bosibl dalu cyfraniad i annog busnesau i agor eu toiledau i'r cyhoedd.

- Gofynnwyd a fyddai'n bosibl trosglwyddo perchenogaeth toiledau cyhoeddus i'r sector preifat? Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y gallai hyn fod yn opsiwn a byddai'n cael ei ystyried fesul achos unigol.

- Cyfeiriwyd at y prosiect datblygu ym Mhentywyn a'r cynnydd mewn twristiaeth, a chodwyd pryder ynghylch y ddarpariaeth bresennol o ran toiledau cyhoeddus ym Mhentywyn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Trefol a Chydymffurfiaeth fod prif floc y toiledau sy'n cynnwys 14 o doiledau wedi'u dymchwel er mwyn gwneud lle ar gyfer y datblygiad newydd. Yn y cyfamser roedd rhywfaint o gyfleusterau ar gael; roedd cyfleuster Cliffside/Springwell wedi'i agor dros dro ar gyfer yr haf, a hynny am 24 awr y dydd, tra bo gwaith adeiladu'n cael ei wneud ar lan y môr ac roedd cyfleuster bach iawn yng Nghanolfan Parry Thomas.

- Dywedwyd nad oedd yr ymgynghoriad wedi holi barn unrhyw dwristiaid oedd yn ymweld â Sir Gaerfyrddin. Bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff gydnabod y sylw a dywedodd mai un o'r argymhellion yn y strategaeth oedd ffurfio Grŵp Astudio'r Strategaeth Toiledau, a fyddai'n sbardun cychwynnol i gymathu'r holl wybodaeth berthnasol a gasglwyd ac sy'n cael ei dal ynghylch y ddarpariaeth gyhoeddus ar draws y Cyngor. Pan fyddai'r grŵp astudio wedi cael ei greu, dywedwyd mai'r cam nesaf fyddai cysylltu â chynrychiolwyr busnes/masnachol lleol a grwpiau eraill i gael mewnbwn o ran cyfleoedd yn y dyfodol.

  Cynigiwyd bod cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn mynychu Grŵp Astudio'r Strategaeth Toiledau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL:-**

**4.1 bod y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft yn cael ei chymeradwyo;**

**4.2 bod cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn bresennol yng Ngrŵp Astudio'r Strategaeth Toiledau.**

## 5. GRWP GORCHWYL A GORFFEN DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD 2019/20 DOGFEN GYNLLUNIO A CHWMPASU

Ar ôl ystyried nifer o awgrymiadau ar gyfer prosiect Gorchwyl a Gorffen, yn ei Sesiwn Datblygu Blaenraglen Waith anffurfiol ar 22 Chwefror 2019 cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i gynnal adolygiad i fenter Safonau Masnach Cyngor Sir Caerfyrddin - y Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol (FESS).

Mae'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol, sef menter aml-asiantaethol a grëwyd ac a ddatblygwyd gan Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin, yn gweithio i ganfod ac atal camfanteisio'n ariannol ar bobl sy'n agored i niwed gan ofalwyr, aelodau o'r teulu, troseddwyr ar y trothwy, twyll drwy'r post, a sgamiau dros y ffôn a thrwy'r e-bost.

Ystyriodd y Pwyllgor y nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fel y'i nodwyd yn y ddogfen cynllunio a chwmpasu, a nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau, a oedd yn cynnwys pum cyfarfod a drefnwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda golwg ar gyflwyno adroddiad terfynol i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2020.

Nododd y Pwyllgor fod swyddogion o'r Adran Safonau Masnach wedi cyfrannu at ddatblygu'r Ddogfen Cynllunio a Chwmpasu a byddent yn parhau i gefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Er mwyn ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen gwleidyddol gytbwys, gofynnodd y Cadeirydd am hyd at 6 enwebiad gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-**

**5.1 derbyn Dogfen Gwmpasu y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;**

**5.2 cymeradwyo nodau'r prosiect a chwmpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;**

**5.3 bod yr aelodaeth o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:-**

- **Y Cynghorydd Joseph Davies**
- **Y Cynghorydd Karen Davies**
- **Y Cynghorydd Penny Edwards**
- **Y Cynghorydd Jeanette Gilasbey**
- **Y Cynghorydd John James**
- **Y Cynghorydd Dai Thomas**

## 6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 5 Gorffennaf 2019 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiadau.

I baratoi ar gyfer mynd yn ddi-bapur ym mis Medi 2019, cytunodd y Pwyllgor y byddai Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2018/19 yn eitem ddi-bapur ac felly na fyddai'n cael ei chynnwys yng nghopi papur yr agenda a anfonir at Aelodau'r Pwyllgor. Anogwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd i ddefnyddio eu dyfeisiau IPad i fwrw golwg ar agenda'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 derbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol;**

**6.2 nodi Blaengynllun Gwaith diwygiedig Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;**

**6.3 bod Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2018/19 yn eitem ddi-bapur ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf ar 5 Gorffennaf 2019.**

**7. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y 18 EBRILL 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2019 yn gofnod cywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**